
**Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir y Fflint 2015-2030
Flintshire County Council Local Development Plan 2015-2030
Examination**

**Arolygydd/Inspector: Siân Worden: BA DipLH MCD MRTPI
Arolygydd Cynorthwyol/Assistant Inspector: Claire MacFarlane BSc (Hons) MSc MRTPI
Swyddog Rhaglen/Programme Officer: Kerry Trueman**

INSP001

14 Rhagfyr/December 2020

Enw'r ymgynghorai/Consultee Name:
Rhif adnabod yr ymgynghorai/Consultee ID No:
Sefydliad yr Ymgynghorai/Consultee Organisation:

**Hysbysiad o Gyfarfod Cyn-gwrandawriad – Dydd Mawrth 12 Ionawr 2021 am 2.30pm
Notice of Pre-Hearing Meeting (PHM) – Tuesday 12th January 2021 at 2.30pm**

Annwyl Syr/Fadam

Mae fy nghofnodion yn dangos eich bod chi neu eich sefydliad wedi cyflwyno sylwadau yn ystod Ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Cyngor Sir y Fflint 2015-2030 (30 Medi 2019 – 11 Tachwedd 2019).

Mae'r CDLI wedi'i gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio ac ar hyn o bryd yn destun Archwiliad Annibynnol.

Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi penodi Arolygydd Arweiniol, Siân Worden BA DipLH MCD MRTPI a'r Arolygydd Cynorthwyol, Claire MacFarlane BSc (Hons) MSc MRTPI o'r Arolygiaeth Gynllunio i gynnal y broses arolygu.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i gyflwyno fy hun fel Swyddog y Rhaglen sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r Arolygwyr gyda phob agwedd ar weinyddiaeth yr archwiliad. Rydw i'n annibynnol ar y Cyngor ac yn gweithio o dan gyfarwyddyd yr Arolygwyr.

Dear Sir/Madam

My records show that you or your organisation have submitted representations during the Flintshire County Council Local Development Plan 2015-2030 (LDP) Consultation (30th Sept 2019 – 11th November 2019).

The LDP has been formally submitted to the Welsh Government and the Planning Inspectorate and is currently subject to Independent Examination.

The Ministers of the Welsh Government have appointed Lead Inspector Siân Worden BA DipLH MCD MRTPI and Assistant Inspector Claire MacFarlane BSc (Hons) MSc MRTPI of the Planning Inspectorate to conduct the examination process.

I would like to take this opportunity to introduce myself as the Programme Officer who is responsible for assisting the Inspectors with all aspects of the examination administration. I am independent from the Council and work under the Inspectors' direction.

Nodwch y dylai pob gohebiaeth at yr Arolygwyr gael eu hanfon ataf i. I sicrhau eu didueddrwydd, ni fydd yr Arolygwyr yn cysylltu'n uniongyrchol ag unrhyw bobl, yn cynnwys y Cyngor, y tu allan i sesiynau arolygu ffurfiol.

Bydd y broses arolygu yn cynnwys cyfres o wrandawiadau i ddechrau **dydd Mawrth 23 Chwefror 2021**.

Cyn hyn, bydd Cyfarfod Cyn-gwrandawriad yn cael ei gynnal am **2.30pm ddydd Mawrth 12 Ionawr 2021** i egluro sut y caiff y gwrandawiadau eu cynnal. Bydd hyn yn digwydd yn rhithwir (mwy o fanylion i ddilyn maes o law).

Pwrpas y cyfarfod yw helpu'r Arolygwyr a phob unigolyn â diddordeb i baratoi ar gyfer y gwrandawiadau. Bydd yr Arolygwyr yn amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod yr archwiliad, yn egluro ac yn trafod materion gweithredol a gweinyddol sy'n ymwneud â rheoli'r archwiliad, yn cynnwys rhaglen y gwrandawiadau, y materion i'w harolygu a chwestiynau cysylltiedig, y drefn a chyfranogwyr, y dulliau o ddelio â sylwadau, yr amserlen ar gyfer cyflwyno unrhyw ddeunydd ychwanegol a all fod yn ofynnol (yn cynnwys datganiadau gwrandawiadau), ac unrhyw faterion perthnasol eraill.

Mae'n debyg y bydd pawb sy'n bwriadu ymwneud â sesiynau'r gwrandawriad yn ei ystyried yn ddefnyddiol i ddod i'r cyfarfod rhithwir hwn. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i ymgyswrtu ein hunain ag agweddau technolegol ar ddigwyddiadau rhithwir.

I gynorthwyo gyda gwneud y trefniadau, rhowch wybod i mi os ydych yn dymuno dod i'r Cyfarfod Cyn-gwrandawriad rhithwir, naill ai drwy e-bostio

kerry.trueman@flintshire.gov.uk

Neu drwy ysgrifennu at y cyfeiriad isod

Dylid derbyn ymatebion erbyn 29 Rhagfyr 2020.

Mae croeso i gyfranogwyr yng Nghyfarfod y Cyn-gwrandawriad ddefnyddio'r Gymraeg a bydd cyfleuster cyfieithu ar gael. Rhowch wybod i mi os oes gennych unrhyw ofynion penodol eraill.

Please note that all communications for the Inspectors should be sent to me. To ensure their impartiality the Inspectors will not communicate directly with any party, including the Council outside the formal examination sessions.

The examination process will include a series of hearings to commence on **Tuesday 23rd February 2021**.

Before this, a Pre-Hearing Meeting (PHM) will be held at **2.30pm on Tuesday 12 January 2021** to explain the conduct of the hearings. This will take place virtually (more details to follow in due course).

The meeting is to help the Inspectors and all interested parties to prepare for the hearings. The Inspectors will outline the procedures to be followed during the examination, explain and discuss procedural and administrative matters relating to the management of the examination, including the programme for the hearings, the matters to be examined and related questions, the running order and participants, the methods of dealing with representations, the timetable for submitting any additional material that may be required (including hearings statements), and any other relevant matters.

All those who intend to be involved in the hearing sessions will probably find it helpful to attend this virtual meeting. It will also provide an opportunity to familiarise ourselves with the technological aspects of virtual events.

To assist in making the arrangements please advise me if you wish to attend the virtual Pre-Hearing Meeting either by emailing

kerry.trueman@flintshire.gov.uk

Or by writing at the address below

Replies should be received by 29th December 2020.

Participants at the Pre-Hearing Meeting are welcome to use the Welsh language and a translation facility will be made available. Please advise me if you have any other specific requirements.

Mae'r Arolygwyr nawr yn ystyried y prif faterion a sut orau i gynnal sesiynau'r gwrandawriad. Bydd y gwrandawiadau'n cynnwys ystod o faterion a nodwyd gan yr Arolygwyr, ac yn canolbwyntio ar gadernid cyffredinol y Cynllun, gan ystyried y profion cadernid fel yr amlinellir yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Tabl 27) a'r materion a godwyd yn y sylwadau. Y nod yw caniatáu'r Arolygwyr i gynnal archwiliad strwythuredig o'r materion sy'n codi, i gynorthwyo gyda'u hystyriaeth o gadernid y Cynllun.

Mae'r Arolygwyr wedi gofyn i mi dynnu eich sylw at y ffaith bod sylwadau a wneir yn ysgrifenedig â'r un grym â'r rhai a wneir gan ymddangosiad personol yn unrhyw un o sesiynau'r gwrandawriad.

Mae nodiadau canllaw'r Arolygwyr ar gyfer sesiynau'r gwrandawriad a'r rhaglen ar gyfer y Cyfarfod Cyn-gwrandawriad ar gael ar wefan yr archwiliad cyn y cyfarfod.

Bydd gwefan yr archwiliad yn cael ei diweddarw wrth i'r archwiliad fynd yn ei flaen, i gynnwys gohebiaeth, tystiolaeth, sylwadau a dogfennaeth arall sy'n berthnasol i'r archwiliad (Llyfrgell yr Archwiliad).

Cadwch lygad yn rheolaidd ar wefan yr archwiliad am y wybodaeth ddiweddaraf. Os nad oes gennych fynediad at y rhyngwyd ac yn dymuno gweld dogfennau penodol, rhowch wybod i mi fel y gallwn drafod ffordd arall o wneud hyn.

<https://www.sirryfflint.gov.uk/cy/Resident/Planning/Flintshire-LDP-Examination-Home-Page.aspx>

Efallai eich bod chi eisoes wedi dangos eich dymuniad i gyfranogi yn sesiynau'r gwrandawriad (pan wnaethoch eich cyflwyniad i'r cyngor), ond er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, byddwn yn croesawu cadarnhad ynghylch a ydych yn dymuno cyfranogi yn y gwrandawiadau erbyn **29 Rhagfyr 2020**.

Os ydych wedi cael y cyfathrebiad hwn drwy'r post, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn rhoi eich cyfeiriad e-bost i mi, os oes gennych un, i sicrhau cyfathrebiad cyflym ac effeithlon. Fodd bynnag, os byddai'n well gennych beidio â chael rhagor o wybodaeth am yr archwiliad, rhowch wybod i mi ac fe dynnaf eich manylion o'r rhestr hysbysu.

The Inspectors are now considering the main matters and issues and how best to conduct the hearing sessions. The hearings will cover a range of issues identified by the Inspectors and focus on the overall soundness of the Plan, having regard to the soundness tests as outlined in the Local Development Plan Manual (Table 27) and the matters raised by the representations. The aim is to allow the Inspectors to conduct a structured exploration of the issues arising, to assist their consideration of the Plan's soundness.

The Inspectors have asked me to draw your attention to the fact that representations made in writing carry the same weight as those pursued by a personal appearance at any of the hearing sessions.

The Inspectors' guidance notes for the hearing sessions and the agenda for the PHM will be available on the examination website before the PHM.

The examination website will be updated as the examination progresses to include correspondence, evidence, representation and other documentation relevant to the examination (the Examination Library)

Please regularly check the examination website for up-to-date information. If you do not have access to the internet and wish to view specific documents, please let me know so we can discuss an alternative.


<https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Planning/Flintshire-LDP-Examination-Home-Page.aspx>

You may have already indicated that you wish to participate in the hearing sessions (when you made your submission to the council) but for the avoidance of doubt I would welcome confirmation of whether you wish to take part in the hearings by **29th December 2020**.

If you have received this communication by post, I would be grateful if you could supply me with your email address, if you have one, to ensure quick and efficient communication. However, if you would prefer not to receive any further information on the examination, please let me know and I will remove your details from the notification list.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych, ond yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, rhowch wybod i mi.

Yn ddiffuant




Kerry Trueman
Swyddog y Rhaglen

Programme Officer Solutions Limited
PO Box 229
Prenton
Wirral
CH26 9EY

I look forward to hearing from you but in the meantime if you have any questions please let me know.

Yours sincerely



Kerry Trueman
Programme Officer